# Grantiau Cist Gymunedol

# Nodiadau Canllaw

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Mae Cist Gymunedol yn gynllun grant sy'n cael ei ariannu gan Gyngor Sir y Fflint (CSFf) ac yn cael ei weinyddu gan Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint (CGLISFf) i gefnogi gweithgareddau cymunedol yn Sir y Fflint, gyda blaenoriaeth i grwpiau cymunedol lleol bach.

**Cyn i chi ddechrau:**

- A oes gan eich grŵp neu sefydliad **ganolfan** yn Sir y Fflint, nid dim ond yn gweithredu yn Sir y Fflint?
- Ydych chi'n grŵp / sefydliad **nid er elw** gyda **chyfansoddiad** / dogfen lywodraethol?
- A oes gan eich grŵp **gyfrif banc** sydd angen o leiaf dau lofnodwr digyswllt?

Os mai eich ateb oedd "**ydw/oes**" i'r **HOLL** gwestiynau uchod, yna ewch ymlaen. Os mai eich ateb oedd "na" i unrhyw un ohonynt, dydi'r grantiau hyn ddim ar eich cyfer chi. Cysylltwch â CGLISFf i gael gwybodaeth am ffynonellau cyllid eraill.

**A yw eich grŵp neu sefydliad:**

- yn gorff crefyddol sy'n ymgeisio am welliannau i adeilad
- yn gwneud cais am arian er budd unigolyn
- eisoes wedi derbyn Cist Gymunedol yn y 2 flynedd ddiwethaf
- sefydliad masnachu neu sefydliad sy'n gwneud elw, neu CBC cyfyngedig drwy gyfranddaliadau
- grŵp newydd gyda llai na chwe mis o hanes llwyddiant
- ysgol; cyngor tref / cyngor plwyf / cyngor sir

Os mai eich ateb oedd "**ydy**" i **UNRHYW** un o'r cwestiynau hyn, dydi'r gronfa hon **ddim** ar eich cyfer chi. Cysylltwch â CGLISFf ynghylch ffynonellau cyllid posibl eraill.

| **Dyma enghreifftiau o'r hyn a ariannwyd gan y grant** | **Beth NA ALLWCH chi wneud cais amdano** |
|---|---|
| Mentrau untro megis: | Gweithgareddau sydd eisoes wedi eu cynnal |
| Digwyddiadau cymunedol (ond nid bwyd a diod) | Eitemau y talwyd amdanynt eisoes neu gostau cylchol |
| Eitemau o offer (ond nid papur, inc, ac ati) * | Bwyd, diod, arlwyo, lletygarwch |
| Cyhoeddusrwydd a marchnata | Teithiau allan, gwibdeithiau |
| Astudiaethau dichonolrwydd | Gwobrau, medalau, tlysau, tystysgrifau |
| Mân atgyweiriadau a gwaith diweddaru adeiladau **#** | Costau rhedeg, cyfleustodau, cyflogau, ffioedd, aelodaeth |
| Cyrsiau hyfforddi i staff a gwirfoddolwyr | Gweithgareddau sy'n hyrwyddo credoau crefyddol neu wleidyddol |
| Ymateb i sefyllfaoedd brys ac adferiad ohonynt (e.e. pandemig, llifogydd) | Papur, inc argraffydd, deunydd ysgrifennu, costau ffôn, unrhyw gostau cylchol neu "nwyddau traul" |

* Rhaid i eitemau o offer a ariennir gan y Gist Gymunedol gael eu diogelu gan yswiriant, rhaid iddynt aros yn eiddo i'r grŵp a rhaid iddynt fod ar gael i fwy nag un aelod eu defnyddio.

# Os ydych am wneud mân atgyweiriadau neu ddiweddaru gosodiadau, ac ati, yna mae'n rhaid i chi siarad â ni yn gyntaf i weld a yw'r hyn yr ydych am ei wneud yn gymwys, gan ddarparu manylion eich prydles, ac ati.

**Faint y gallwn wneud cais amdano?**
Bydd CSFf yn ariannu **hyd at 75%** o gyfanswm cost yr hyn yr ydych yn gwneud cais amdano, hyd at uchafswm o £1,000.

**Pryd allwn ni wneud cais?**
Gellir dyfarnu cyllid y grant Cist Gymunedol hyd at **uchafswm o £1,000** mewn unrhyw gyfnod treigl o ddwy flynedd, felly os ydych wedi cael grant Cist Gymunedol yn flaenorol, bydd angen i chi aros am flwyddyn gyfan cyn gwneud cais eto. Derbynnir ceisiadau drwy gydol y flwyddyn a chânt eu hystyried mewn tri chyfarfod panel a gynhelir yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn (Gwanwyn, Hydref, Gaeaf fel arfer). I gael gwybodaeth am y panel nesaf a dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau, ewch i'n gwefan www.flvc.org.uk.

**Beth os na allwn fodloni'r dyddiad cau ar gyfer y rownd yr ydym am wneud cais amdani?**
Os byddwch yn methu dyddiad cau, bydd eich cais yn mynd i gyfarfod nesaf y panel (ar ôl iddo gael ei wirio i sicrhau ei fod yn gyflawn). Os nad yw'n gyflawn, byddwch yn cael gwybod ond efallai na fydd eich cais yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod panel yr oeddech yn ei fwriadu, felly **gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich cais mewn da bryd**, yn enwedig os ydych yn gwneud cais am rywbeth sy'n **llym o ran amser**, e.e. digwyddiad.

Os hoffech gael cyngor ar eich cais, cysylltwch â Heather Hicks ar 01352 744004 neu heather.hicks@flvc.org.uk.

**Beth sydd angen i ni ei ddarparu ynghyd â'n cais?**

Bydd angen i chi ddarparu:
- Eich cyfansoddiad wedi'i lofnodi neu set o reolau a fabwysiadwyd gan eich grŵp
- Cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu eich grŵp sy'n llai na thri mis oed
- Cyfrifon blynyddol diweddaraf eich grŵp wedi'u **llofnodi** neu ddatganiad incwm a gwariant wedi'i **lofnodi**
- Tri dyfynbris ar gyfer unrhyw eitem sy'n costio dros £100, i'w prynu gan ddefnyddio'r grant hwn *
- One quote for any item costing under £100, to be purchased using this grant *

Gall dyfynbrisiau fod yn sgrinluniau / lluniau o eitemau sy'n dangos y pris yn glir (gan gynnwys TAW). NI dderbynnir dolenni i wefannau a bydd eich cais yn cael ei wrthod os yw'n cynnwys dolenni.

*Rhaid i eitemau i'w prynu fod yn newydd sbon, dim eitemau ail-law oni bai eu bod wedi'u cymeradwyo gan Gyngor Sir y Fflint – cysylltwch â ni cyn cwblhau eich cais.

**Mae'n rhaid cwblhau holl adrannau'r ffurflen gais a chyflwyno'r dogfennau uchod er mwyn i ni allu ystyried eich cais.**

Os byddwch chi'n gwneud cais ar-lein drwy wefan CGLISFf (y dull a ffefrir gennym), byddwch yn defnyddio'r ffurflen gywir yn awtomatig. Os byddwch chi'n defnyddio ffurflen wedi'i hanfon drwy e-bost neu wedi'i hargraffu, gwnewch yn siŵr bod y ffurflen gyfredol gennych chi (bydd 2026-27 arni). Os nad ydych chi'n siŵr, cysylltwch â info@flvc.org.uk neu 01352 744004.

**Sut caiff ceisiadau eu hasesu?**

Mae panel annibynnol o aelodau etholedig a swyddogion o Gyngor Sir y Fflint, ymddiriedolwyr CGLISFf a chynrychiolwyr trydydd sector eraill yn ystyried pob cais cyflawn deirgwaith y flwyddyn. Mae argymhellion ar gyfer cyllid yn seiliedig ar angen, budd cymunedol, hyfywedd, maint y sefydliad.

**Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym wedi bod yn llwyddiannus?**
Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod am ganlyniad eu cais, fel arfer drwy e-bost – gall y broses hon gymryd hyd at 4 mis, yn dibynnu ar ba bryd y byddwch yn ei gyflwyno. Os bydd y cais yn llwyddiannus, anfonir unrhyw amodau ychwanegol ar gyfer y grant a ffurflen dderbyn atoch. Drwy lofnodi a dychwelyd y ffurflen dderbyn, mae'r ymgeisydd a'u grŵp yn gorfod cydymffurfio ag amodau'r grant.

**Pryd gawn ni'r cyllid a phryd mae'n rhaid ei wario?**
Telir drwy drosglwyddiad banc o fewn pedair wythnos i gyflwyno'r holl waith papur perthnasol i CGLISFf. Rhaid gwario'r holl arian o fewn 12 mis o ddyfarnu'r cyllid.

**Pa wybodaeth sy'n rhaid i ni ei darparu am yr hyn yr ydym wedi'i wneud a sut wnaethon ni wario'r grant?**
Anfonir ffurflen fonitro ac adroddiad cynnydd atoch i'w llenwi pan ddyfernir yr arian i chi. Bydd yn gofyn am fanylion yr hyn yr ydych wedi'i wneud, nifer y bobl sydd wedi elwa, dadansoddiad o sut y gwariwyd yr arian ac astudiaeth achos; gallwch anfon lluniau, fideos, copïau o ddeunyddiau cyhoeddusrwydd atom hefyd, os dymunwch. Rhaid llenwi'r ffurflen fonitro'n llawn a'i hanfon at CGLISFf ddim hwyrach na 13 mis ar ôl cael gwybod am eich cais llwyddiannus. Gallai dychwelyd y wybodaeth hon yn hwyr gael effaith andwyol ar unrhyw geisiadau ariannu eraill a wnewch i CGLISFf / CSFf.

**Ble gallwn gael ffurflen gais, sut i'w chyflwyno a pha fformatau sydd ar gael?**
Rydym yn annog ymgeiswyr i gwblhau'r ffurflen ar-lein drwy ein gwefan www.flvc.org.uk. Gallwch anfon e-bost at heather.hicks@flvc.org.uk neu ffonio 01352 744004 os na allwch wneud cais ar-lein a gallwn anfon ffurflen atoch drwy e-bost neu ei phostio os mai dim ond ffurflen gais bapur y gall eich grŵp ei chwblhau.

Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. Gellir darparu nodiadau canllaw a'r ffurflen gais mewn fformatau eraill, gan gynnwys Braille a phrint bras ar gais – caniatewch 10 diwrnod gwaith ar gyfer hyn.